



North Wales Wildlife Trust
Impact report 2018/2019

Ymddiriedolaeth Natur
Gogledd Cymru
Adroddiad effaith 2018/2019



Our wild year Ein blwyddyn wylt

Thank you! Diolch!

We want to see a North Wales richer in wildlife valued by all: no small aim in a world where wildlife is sidelined.

Yet we – our staff, volunteers, members and partners – take steps every single day to improve places for wildlife and strengthen the relationship between the people of North Wales and the local environment. Together, we make a real difference. **Thank you.**

This impact report takes a single-year, celebratory snap-shot of a 55-year-old local movement. As we write it, 2019-20 is already long upon us – a year that could see some significant, long-term changes in land management policy emerge from legislators in Cardiff. Please continue to help us work for the wilder future that our children, and our wildlife, deserve to inherit.

Roger Thomas, Chair / Cadeirydd

Frances Cattanach, Chief Executive Officer / Prif Weithredwraig

Rydyn ni eisiau gweld Gogledd Cymru sydd â mwy o gyfoeth o fywyd gwylt sy'n cael ei werthfawrogi gan bawb: nod enfawr mewn byd lle mae bywyd gwylt yn cael ei wthio i'r cyrion.

Ond eto – rydyn ni, yn staff, gwirfoddolwyr, aelodau a phartneriaid – yn cymryd camau bob un dydd i wella llefydd ar gyfer bywyd gwylt ac i gryfhau'r berthynas rhwng pobl Gogledd Cymru a'r amgylchedd lleol. Gyda'n gilydd, rydyn ni'n gwneud byd o wahaniaeth. **Diolch yn fawr.**

Mae'r adroddiad effaith yma'n gipolwg ar flwyddyn gron yn dathlu 55 mlynedd y mudiad yn lleol. Wrth i ni ysgrifennu'r adroddiad, mae 2019-20 wedi hen gyrraedd – blwyddyn a llai weld rhai newidiadau arwyddocaol a thymor hir o ran polisi rheoli tir o du deddfwriaethwyr yng Nghaerdydd. Plis daliwch ati i'n helpu ni i weithio dros y dyfodol gwyltach mae ein plant, a'n bywyd gwylt, yn haeddu ei etifeddu.

Cover / Clawr: © David Tipling 2020 Vision





Our wild year

Photo credits / Hawlfraint Lluniau © : Flintshire Leader, Andy o'Callaghan, Paul Lane, Ben Stammers, Nia Haf Jones, Graham Berry, Iwan Edwards, Simon Mills, Mark Greenhough, Ben Stammers, Andy o'Callaghan, Mike Klymko



APRIL / EBRILL



MAY / MAI



JUNE / MEHEFIN



JULY / GORFFENNAF



AUGUST / AWST



SEPTEMBER / MEDI

Mold residents act for wildlife

Our 'Wild About Mold' project gave people the chance to help wildlife through over 30 inspiring sessions. Good news, too, for the future of our work in the Alun and Chwiler Living Landscape area: we secured funding for another 3 years to restore habitats, plant trees and hedges, control invasive species and support landowners to care for wildlife.

'Ein Glannau Gwyllt' wedi cyrraedd hanner ffordd

Rydyn ni wedi dysgu mwy na 400 o bobl ifanc i benderfynu ar y dyfodol ar eu cyfer hwy a'u hamgylchedd, drwy weithgareddau ymarferol, digwyddiadau bywyd gwyllt ysbyrdoledig a fforymau rhanbarthol o dan arweiniad ieuengtud. Eleni, roedd llawer ohonynt y tu allan i addysg brif ffrwd.

Minera Quarry opened to all

We celebrated our newest nature reserve alongside Mike Dilger at an event attended by over 500 people, including local residents and community groups. Year-round safety work, fencing and management of the orchid-rich grassland – all led by volunteers – is starting to create a real haven for wildlife and visitors alike.

Poblogaeth môr-wenoliaid Cemlyn yn adfer

Ar ôl blwyddyn drychinezus yn 2017 i'r adar môr mudol rhyfeddol yma, roedden ni'n eithriadol falch bod mwy na 500 o barau o fôr-wenoliaid pigddu wedi magu cywion yma. Ar y cyfan, gwobr deilwng i staff a gwirfoddolwyr yr Ymddiriedolaeth Natur ar ôl eu gwaith caled yn ystod y gaeaf i roi'r cyfle gorau posib i'r boblogaeth.

500 Go Wild at West Shore

Our Conwy Valley Branch event was just one of our 'Living Seas Wales' roadshows: all opening people's eyes to the riches of our marine environment. Since launching the project at the Volvo Ocean Race in Cardiff, around 2,000 have enjoyed augmented reality experiences, digitally diving with dolphins and plenty of 'traditional' wildlife activities, too!

Marford Wych

Roedd yn flwyddyn eithriadol yng Ngwarchodfa Natur Chwarel Marford. Ar ôl cyfres o arolygon gan yr entomolegydd lleol, Bryan Formstone, cofnodwyd 35 o rywogaethau pellach o hymenoptera colynnog (gwenyn, morgrug a gwenyn meirch), gan wneud cyfanswm anhygoel o 171 o rywogaethau!

Ein blwyddyn wylt



OCTOBER / HYDREF



NOVEMBER / TACHWEDD



DECEMBER / RHAGFYR



JANUARY / IONAWR



FEBRUARY / CHWEFROR



MARCH / MAWRTH

'Our Wild Community'

This pilot project hopes to increase the pride and engagement of local communities in eight of our nature reserves. This collaborative working is already leading to exciting follow-on activities, such as an eco-connectivity project between Graig Wyllt and Coed Cilygroeswyd and continuing to build links with Pwll-glas's community shop.

Tyfu gwarchodfa natur

Cytunodd yr Ymddriedolaeth i reoli tair dôl ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr sy'n gartref i gymunedau pwysig o blanhigion dôl llifogydd. Mae dwy o'r tair wedi'u dynodi fel SoDdGA Old Pulford Brook Meadows, a newidiwyd enw'r warchodfa natur gennym o 'Three-Cornered Meadow' i adlewyrchu hyn.

Wrexham Industrial Estate going green

Mark Greenough replaced Jonny Hulson in delivering engaging ways to promote wildlife on the Wrexham Industrial Estate. This year we planted a hedgerow, created wildflower verges and meadows, improved habitat for grizzled skipper butterflies, restored ponds for amphibians and planted a woodland!

Bygythiad Wyllfa i fywyd gwylt wedi diflannu – am nawr

Yn dilyn ymgynghori am flynyddoedd lawer, cawsom ymddangos yn yr Ymchwiliad Cyhoeddus. Ein prif bryder oedd sut byddai'r cyfnod adeiladu a gweithredu'r safle'n effeithio ar y boblogaeth o fôr-wenoliaid yng Nghymru. Mae'r datblygiad wedi'i roi i'r naill ochr ar hyn o bryd, ond rydyn ni'n parhau'n wyliadwrus.

A movement determined to make a difference

Momentum started building for The Wildlife Trusts' 'Wilder Future' campaign, calling on our governments to create a better future for wildlife. Responding to widespread media coverage, many of our supporters took up the challenge and started to demand a positive change from our AMs and MPs.

Swyddfa newydd yng Ngwarchodfa Natur Aberduna

Ar ôl blynnyddoedd lawer yn ei chynllunio, a gwaith caled ein gwirfoddolwyr lleol, symudodd ein staff i'w swyddfa ar ei newydd wedd. Wedi'i lleoli yn y warchodfa natur, gydag ystafell gyfarfod a gofod storio, mae'n lleoliad gwych ar gyfer ein gweithgareddau yng ngogledd ddwyrain Cymru.



Minera Quarry Nature Reserve is a great place to see orchids



Gwarchodfa Natur
Chwarel Mwynglawdd
– lle delfrydol i weld
tegeirianau

North Wales Wildlife Trust is an independent, grassroots-based organisation working tirelessly to protect wildlife across North Wales.

Mae **Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru** yn sefydliad annibynnol ar lawr gwlad sy'n gweithio'n ddiflino i warchod bywyd gwylt ar draws Gogledd Cymru.

members

5,794

o aelodau



local Branches

6

o Ganghennau
Ileo!



nature
reserves

36

o warchodfeydd
natur



volunteers

504

o wirfoddolwyr



Natural Partners
(Businesses)

33

o Bartneriaid
Naturiol (Busnes)



Bringing people closer to nature

Dod â phobl yn nes at natur



Volunteering on the
Wrexham Industrial
Estate



Gwirfoddoli ar
stad ddiwydiannol
Wrecsam

Our impact / Ein heffaith

How many people experienced nature with North Wales Wildlife Trust in 2018-19?

Faint o bobl gafodd brofiad o fydd natur gyda'r
Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
yn 2018-19?



people learnt more about
wildlife at our events

10,492

o bobl wedi dysgu mwy am
fywyd gwylt yn ein
digwyddiadau ni



people engaged with nature through our
visits to schools and other groups

10,403

o bobl wedi ymwneud â byd natur
drwy ein hymweliadau ni ag
ysgolion a grwpiau eraill

Random Acts of Wildness were committed
by people in our **30 Days Wild** campaign

164,875

o Weithredoedd Gwylt wedi'u hymrwymo
gan bobl yn ein **hymgyrch 30 Diwrnod Gwylt**

volunteer hours given
by our 504 volunteers

20,392

o oriau gwirfoddol
wedi'u cyfrannu
gan ein 504 o
wirfoddolwyr



visitors to our website

61,575

o ymweliadau â'n
gwefan ni





© Andy O'Callaghan

My Wild Life: Jayke Forshaw

Jayke's first encounter with North Wales Wildlife Trust was as a participant in the 'Our Wild Coast' project in 2016. He had been wanting to get involved in wildlife conservation for some time, having had to cut short his degree in marine biology when he fell ill, and the project gave him the confidence boost he needed to start volunteering.

Jayke ultimately wants to be more actively involved in practical conservation once he's better but, for now, he's happy in the knowledge that the work he contributes at the office in Bangor is just as critical to the operation of the Wildlife Trust as the work which takes place on our reserves.

"I've learned to do time sheets, data input and to help with parts of the website and social media. I even built a cabinet for the reception! It's nice to feel useful and it never gets boring – I've always got something new to learn. I was very bored stuck at home and, whilst I only do two and a half days a week, it makes a massive difference – and this makes me very happy."

Fy Mywyd Gwylt: Jayke Forshaw

Daeth Jayke ar draws Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru am y tro cyntaf fel cyfranogwr ym mhrosiect 'Ein Glannau Gwylt' yn 2016. Roedd wedi bod eisiau cymryd rhan mewn cadwraeth bywyd gwylt ers peth amser, ar ôl gorfol dod â'i radd mewn bioleg y môr i ben ar ôl mynd yn sâl, a rhoddodd y prosiect hwb perffaith i'w hyder i ddechrau gwirfoddoli.

Yn y pen draw, mae Jayke eisiau ymwneud mwy â chadwraeth ymarferol unwaith y bydd yn well ond, am nawr, mae'n hapus o wybod bod y gwaith mae'n ei wneud yn y swyddfa ym Mangor yr un mor allweddol i weithredu'r Ymddiriedolaeth Natur a'r gwaith sy'n digwydd yn ein gwarchodfeydd ni.

"Rydw i wedi dysgu gwneud taflenni amser, mewnbynnau data a helpu gyda rhannau o'r wefan a chyfryngau cymdeithasol. Rydw i wedi creu cabinet ar gyfer y dderbynfa hyd yn oed! Mae'n braf teimlo o werth i rywun a dydw i byth yn diflasu - mae gen i rywbeith newydd i'w ddysgu bob amser. Roeddwn i'n ddiflas iawn adref ac er mai dim ond dau ddiwrnod a hanner yr wythnos ydw i yma, mae'n gwneud byd o wahaniaeth – ac yn fy ngwneud i'n hapus iawn."

Living Seas Champions

Over the past year our Living Seas team has expanded rapidly with the addition of a group of dedicated volunteers who are passionate about our seas – our Living Seas Champions! These wonderful people undertake biological surveys and beach cleans; help us collect stories of people's wildlife experiences; and enable more people to learn about and build connections with coastal wildlife through supporting pop-up events and our 'Living Seas Live!' roadshow.

Importantly, as well as bringing joy to others, our Living Seas Champions are benefitting personally, too – a constant reminder to us all of the inseparable bonds between our wild world and our personal health and wellbeing.

Ultimately, our newly trained Champions are helping to spread the marine wildlife gospel of Jacques-Yves Cousteau: "People protect what they love, [and] they love what they understand". At the Wildlife Trust, we can't directly manage marine habitats – but we, our Champions, and members of the public they enthuse can tell others loudly about what's out there and why they should take action to protect it.

Volunteering with North Wales Wildlife Trust has enriched my life, as well as my knowledge and understanding of marine wildlife. – Sue



Hyrwyddwyr Moroedd Byw

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae ein tîm Moroedd Byw wedi ehangu'n gyflym iawn yn sgil ychwanegiad grŵp o wîrfoddolwyr brwd sy'n angerddol am ein moroedd ni - yr Hyrwyddwyr Moroedd Byw! Mae'r pobl gwych yma'n cynnal arolygon biolegol ac yn glanhau traethau; yn ein helpu ni i gasglu straeon am brofiadau bywyd gwylt pobl; ac yn galluogi mwy o bobl i ddysgu am fywyd gwylt yr arfordir a chreu cysylltiadau ag ef drwy gefnogi digwyddiadau pop-yp a'n sioe deithiol 'Moroedd Byw Yn Fyw'!

Yn bwysig iawn, yn ogystal â chreu llawenyyd i bobl eraill, mae'r Hyrwyddwyr Moroedd Byw yn elwa'n bersonol hefyd – sy'n ein hatgoffa ni i gyd yn gyson am y cyswllt cadarn rhwng ein byd gwylt a'n hiechyd a'n lles personol.

*Mae'n bleser mawr gennyf i frwdfrydu pobl ynglŷn â'n byd morol amrywiol. A dw i'n cael pleser mawr o weld eu llygaid yn goleuo ac wedyn yn gwenu!
– Allan*

Yn y pen draw, mae ein Hyrwyddwyr ni sydd wedi'u hyfforddi o'r newydd yn helpu i ledaenu efengyl bywyd gwylt y môr Jacques-Yves Cousteau: "Mae pobl yn gwarchod beth maen nhw'n ei garu, [ac] maen nhw'n caru beth maen nhw'n ei ddeal". Yn yr Ymddiriedolaeth Natur, does dim posib rheoli cynefinoedd morol yn uniongyrchol – ond rydyn ni, ein Hyrwyddwyr, ac aelodau'r cyhoedd maen nhw'n eu hannog, yn gallu dweud yn uchel wrth eraill am beth sydd yn y môr a pham ddylent weithredu i'w warchod.



Standing up for wildlife



Spinnies Aberogwen,
ger Bangor. Un o 36 o'n
gwarchodfeydd natur
yng Ngogledd Cymru.



Spinnies Aberogwen,
near Bangor. One of
our 36 nature reserves
in North Wales.

Sefyll
dros fywyd
gwylt

Our impact / Ein heffaith

What does North Wales Wildlife Trust do to help save places for nature?

Beth mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn ei wneud i helpu i achub llefydd ar gyfer byd natur?

Staff and volunteer days spent defending wildlife around Wylfa

200

o ddyddiau staff a gwirfoddolwyr a dreuliwyd yn amddiffyn bywyd gwylt yn ardal Wylfa

Area of land in our nature reserves

783ha

o arwynebedd tir yn ein gwarchodfeydd natur

Area of land we provided advice on

1,976ha

o arwynebedd tir rydym wedi ddarparu cyngor yn ei gylch

Swift boxes put up →

70

o flychau wenoliaid duon a osodwyd yn eu lle

Landowners advised

128

o berchnogion tir a gynghorwyd

Living Seas Champions →

16

o Hyrwyddwyr Moroedd Byw

Area of our 3 Living Landscape projects

25,600ha

o arwynebedd ein 3 prosiect Tirwedd Fyw



Yellowhammers in the Anglesey Fens

Our Anglesey Fens Living Landscape is one of three landscape-scale projects underway in North Wales, and one of over 100 UK-wide. We take the ethos of our work on nature reserves and extend that into the wider landscape by collaborating with landowners.

Our collaboration with Brian Iddon – owner of Ad Astra Caravan Park, Brynteg – provides one example of this approach. Here, we are working to improve habitats for yellowhammer: the canary-yellow bird, famous for proclaiming ‘a little bit of bread and no cheese’ from the tops of hedges. Although the species can still be found at nearby Cors Goch Nature Reserve, where it is being helped by providing sacrificial crops, it is perilously close to disappearing on Anglesey.

Yellowhammers rely on individual ‘good sites’ being part of a wider landscape that provides food and cover. At Ad Astra, where the birds still congregate and have been seen flying off to nest sites, we have changed the management of 2.8 hectares of fields to encourage more wildflowers, thus producing more food. Already, yellowhammers have been seen taking advantage of this natural buffet! We are also going to plant 400m of native hedgerows to provide more nesting opportunities for the years ahead.

Y bras melyn yng Nghorsydd Môn

Mae ein prosiect Tirwedd Fyw Corsydd Môn yn un o dri phrosiect ar raddfa tirwedd sydd ar waith yng Ngogledd Cymru, ac yn un o blith mwy na 100 ledled y DU. Rydyn ni'n mabwysiadu ethos ein gwaith ni yn y gwarchodfeydd natur ac yn mynd ag ef i'r dirwedd ehangach drwy gydweithredu â pherchnogion tir.

Mae sut rydyn ni'n cydweithredu gyda Brian Iddon – perchen nog Parc Carafanau Ad Astra, Brynteg – yn un esiampl o'r dull hwn o weithredu. Yma, rydyn ni'n gweithio i wella cynefinoedd ar gyfer y bras melyn: aderyn melyn fel caneri sy'n enwog am alw “sa'n syniad reit dda dweud plîs' o frig y gwrychoedd. Er bod y rhywogaeth i'w gweld o hyd yng Ngwarchodfa Natur Cors Goch gerllaw, lle mae'n cael help drwy ddarparu cnydau, mae'n beryglus o agos at ddiflannu ar Ynys Môn.

Mae'r bras melyn yn dibynnu ar 'safleoedd da' unigol yn rhan o dirwedd ehangach sy'n darparu bwyd a chysgod. Yn Ad Astra, lle mae'r adar yn dal i ymgynnnull ac wedi'u gweld yn hedfan i ffwrdd i safleoedd nythu, rydyn ni wedi newid y rheolaeth ar y 2.8 hectar o gaeau er mwyn annog mwy o flodau gwylt, gan gynhyrchu mwy o fwyd. Eisoes, mae'r bras melyn wedi bod yn manteisio ar y bwffe naturiol yma! Rydyn ni hefyd yn mynd i blannu 400m o wrychoedd brodorol i ddarparu mwy o gyfleoedd nythu ar gyfer y blynnyddoedd sydd i ddod.

A wild year at Minera Quarry!

In its first year as a Wildlife Trust nature reserve, Minera Quarry has seen our amazing band of volunteers spend over 1,500 hours working to improve safe access for visitors and conditions for wildlife. Perhaps the most obvious addition to the site is a new footbridge spanning the Afon Sychnant – walking over it leads visitors first to a spectacular, newly cleared set of lime kilns and subsequently up into beautiful, flower-rich grasslands. These were cut late in the summer as would be done for hay, whilst other areas have seen plenty of ‘tree popping’: removing colonising birch and willow saplings that were shading out fragrant and common spotted orchids.

The fruit of our labours is a kaleidoscope of colours throughout spring and summer, with nectar-giving wild flowers a-buzz with insect pollinators such as bilberry bumblebees and common blue and skipper butterflies flitting amongst the bird’s-foot trefoil. These wide open spaces and peaceful sonic surroundings have also provided the ideal setting for a range of activities, including mindfulness and yoga sessions, visits from Minera’s primary school and a special bumblebee identification training day. There’ll be plenty to keep us busy for the year ahead, too ...

© Simon Mills



Blwyddyn wylt yn Chwarel Mwynglawdd!

Yn ystod ei blwyddyn gyntaf fel gwarchodfa natur yr Ymddyriedolaeth Natur, mae Chwarel Mwynglawdd wedi bod yn dyst i'n criw rhyfeddol ni o wirfoddolwyr yn treulio mwy na 1,500 o oriau'n gweithio i wella mynediad diogel i ymwelwyr ac yn gwellar amodau i fywyd gwylt. Efallai mai'r ychwanegiad amlcaf at y safle yw'r bont droed newydd dros Afon Sychnant – mae ei chroesi'n arwain yr ymwelwyr i ddechrau at gyfres drawiadol, wedi'u clirio o'r newydd, o odynau calch ac wedyn i fyny i'r glaswelltiroedd

hardd yn llawn blodau. Torrwyd y rhain yn hwyr yn yr haf fel byddai rhywun yn ei wneud ar gyfer gwair, ac mae cryn dipyn o docio coed wedi digwydd mewn ardaloedd eraill: cael gwared ar ar goed bedw a helyg ifanc yn sefydlu oedd yn taflu cysgod ar y tegeirianau pêr a brych.

Ffrwyth ein llafur yw caleidoscop o liw drwy gydol y gwanwyn a'r haf. Mae blodau gwylt llawn neithdar yn fwrlwm o bryfed peillio fel cacwn llus, a glöynnod byw y glesyn cyffredin a'r gwibiwr yn hedfan ymysg pys-y-ceirw. Mae'r gofod agored a llydan yma a'r amgylchedd heddychlon wedi bod yn lleoliad delfrydol ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau hefyd, gan gynnwys sesiynau ymwybyddiaeth ofalgar ac ioga, ymwelliadau gan ysgol gynradd Mwynglawdd a diwrnod hyfforddi adnabod cacwn arbennig. Bydd digon i'n cadw nî'n brysur yn ystod y flwyddyn o'n blaen, hefyd ...



Natural Partners

Partneriaid Naturiol



Milner
Engineering Ltd



Securing Today. Shaping Tomorrow.[®]



Our impact / Ein heffaith

We are grateful for our varied partnerships with businesses across North Wales.

Rydyn ni'n ddiolchgar iawn am ein partneriaethau amrywiol gyda busnesau ledled Gogledd Cymru.



Creating space for nature on the Wrexham Industrial Estate / Creu gofod ar gyfer byd natur ar Stad Ddiwydiannol Wrecsam



Raising funds for our work / Codi arian ar gyfer ein gwaith ni



Sponsoring our nature reserve guidebook / Noddi ein canllaw i warchodfeydd natur



Building bridges (literally)! / Codi pontydd (yn llythrennol)!



Living Legacies

Ewyllysiau Byw

Steve's story

Steve is a North Wales Wildlife Trust member, photographer and voluntary nature reserve warden. After doing all he physically could for wildlife for several years, he decided to leave a gift in his Will to North Wales Wildlife Trust – making



a difference for nature for the next generation. He is keen to encourage all of us, after looking after loved ones, to consider setting aside a small percentage for wildlife!

Stori Steve

Mae Steve yn aelod o Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, yn ffotograffydd ac yn warden gwirfoddol mewn gwarchodfa natur. Ar ôl gwneud popeth a allai'n gorfforol dros fywyd gwyllt am flynyddoedd lawer, penderfynodd adael rhodd i Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn ei Ewyllys – gan wneud gwahaniaeth i fyd natur ar gyfer y genhedlaeth nesaf. Mae'n awyddus i'n hannog ni i gyd, ar ôl gofalu am ein hanwyliad, i ystyried neilltuo canran fechan i fywyd gwyllt!

Leave your footprints in our landscape forever

We have entered into a number of partnerships that enable our supporters to write their Wills **for free** – without any obligations whatsoever. Please visit our website or contact us for more information.

northwaleswildlifetrust.org.uk/include-gift-your-will

Gadael ôl eich troed ar ein tirwedd ni am byth

Rydyn ni wedi llunio sawl partneriaeth sy'n galluogi ein cefnogwyr i ysgrifennu eu Hewyllys **am ddim** – heb unrhyw rwymedigaethau o gwbl. Ewch i'n gwefan ni neu cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth.
northwaleswildlifetrust.org.uk/cy/include-gift-your-will



© Brian McLean

Our supporters

Ein cefnogwyr ni

- People support us by being **Trust members**, giving donations, leaving **gifts in Wills**, visiting our shops or web-shop and offering services.
 - **Volunteers** provide varied and valuable skills; running events, practical conservation work, wildlife surveys, site wardening, marine work, fundraising, giving professional advice and office administration.
 - **Grants** help us fulfil our own objectives whilst contributing to the goals of a range of funders.
 - Funds from our subsidiaries, **Envys Ecology** and **NWWT Trading** (volunteer-run shops on the Great Orme and in Breakwater Country Park), provide valuable unrestricted income.
 - **Our staff** are skilled and highly motivated to act on our supporters' behalf in the interest of wildlife, often going beyond the call of duty.
-
- Mae pobl yn ein cefnogi ni drwy fod yn **aelodau o'r Ymddiriedolaeth**, cyfrannu rhoddion, gadael **rhoddion mewn Ewyllysiau**, ymweld â'n siopau ni neu ein siop ar y we, a chynnig gwasanaethau.
 - Mae **gwirfoddolwyr** yn darparu sgiliau amrywiol a gwerthfawr; cynnal digwyddiadau, gwaith cadwraeth ymarferol, arolygon ar fywyd gwylt, wardeiniaid mewn safleoedd, gwaith morol, codi arian, rhoi cyngor proffesiynol a gweinyddu swyddfeydd.
 - Mae **Grantiau** yn ein helpu ni i gyflawni ein hamcanion gan gyfrannu at nodau amrywiaeth o gyllidwyr.
 - Mae cylid gan ein his-gwmniâu, **Envys Ecology** ac **NWWT Trading** (siopau sy'n cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr ar y Gogarth ac ym Mharc Gwledig Morglawdd) yn darparu incwm digfyngiad gwerthfawr.
 - Mae **ein staff** yn fedrus ac yn hynod frwd i weithredu ar ran ein cefnogwyr ni er budd bywyd gwylt, gan fynd yr ail filltir yn aml.



About us / Amdanom ni



Our six volunteer-run
Branches are crucial
to our success



Mae ein chwe Changen
sy'n cael eu gweithredu
gan wirfoddolwyr yn
allweddol i'n llwyddiant ni

Demonstrate

the value of wildlife, wild places and the natural world to society



Dangos

gwerth bywyd gwylt, llefydd gwylt a byd natur i gymdeithas

Enable

people to act for wildlife, wild places and the natural world



Galluogi

pobl i weithredu dros fywyd gwylt, llefydd gwylt a byd natur



How we work

Sut rydym yn gweithio

More wildlife, wild places and people closer to nature / Mwy o fywyd gwylt, llefydd gwylt a phobl yn nes at natur

Collecting and analysing evidence
Pioneering natural solutions
Casglu a dadansoddi tystiolaeth
Ariodas gydag atebion naturiol

Saving and nurturing wild places
Providing wild experiences
Achub a meithrin llefydd gwylt
Darparu profadau gwylt

Thriving communities connected to the natural world / Cymunedau ffynianau gyda chyswilt a byd natur

Supporting volunteering
Providing guidance and advice
Darparu cyfarwyddyd a chyngor

A motivated society that supports action for wildlife / Cymdeithas frwd sy'n cefnogi gweithredu dros fywyd gwylt

people to connect with wildlife, wild places and the natural world

Grymuso

pobl i hyrwyddo bywyd gwylt, llefydd gwylt a byd natur

Empower

people to champion wildlife, wild places and the natural world




Ysbrydoli

pobl i gysylltu â bywyd gwylt, llefydd gwylt a byd natur



Our finances



STATEMENT BY TRUSTEES

This financial information was extracted from the annual accounts relating to the statement of financial activities and the balance sheet. For further information to allow a full understanding of the financial affairs and activities of the charity, the full annual accounts and the trustees' annual report are available from our website: northwaleswildlifetrust.org.uk/about-us

Alternatively please phone or call in for a paper copy from our main office (Llys Garth, Garth Road, Bangor, Gwynedd, LL57 2RT, 01248 351541) or come along to our AGM on 2 November.

The annual accounts were approved by the trustees on 11 July 2019 and will be submitted to the Charities Commission and Companies House.

STATEMENT OF CONSOLIDATED FINANCIAL ACTIVITIES for year ended 31 March 2019

| | 2019 £ | 2018 £ |
|---|------------------|------------------|
| Incoming resources | | |
| Incoming resources from generated funds | | |
| Voluntary income | 285,623 | 352,352 |
| Activities for generating funds | 507,301 | 291,791 |
| Investment income | 45,159 | 34,238 |
| | 838,083 | 678,381 |
| Incoming resources from charitable activities | 993,167 | 976,162 |
| Total incoming resources | 1,831,250 | 1,654,543 |
| Resources expended | | |
| Fundraising cost | 498,576 | 330,542 |
| Charitable expenditure | 1,466,011 | 1,260,796 |
| Total resources expended | 1,964,587 | 1,591,338 |
| Net movement in funds before transfers | (133,337) | - |
| Gains/(losses) on revaluations of investment assets | 96,235 | - |
| Net movements in funds | (37,102) | 63,205 |
| Reconciliation of funds | | |
| Total funds brought forward | 1,596,975 | 1,533,770 |
| Total funds carried forward | 1,559,874 | 1,596,975 |
| CONSOLIDATED BALANCE SHEET as at 31st March 2019 | | |
| Fixed assets | | |
| Heritage assets | 581,770 | 582,870 |
| Tangible assets | 45,588 | 30,078 |
| Investments | 170,000 | - |
| Total fixed assets | 797,358 | 612,948 |
| Current assets | | |
| Stock | 19,106 | 18,900 |
| Debtors | 391,978 | 350,274 |
| Cash at bank and in hand | 639,985 | 823,911 |
| Total current assets | 1,051,070 | 1,193,085 |
| Creditors: amounts falling due within one year | (288,554) | (209,058) |
| Net current assets | 762,516 | 984,027 |
| NET ASSETS | 1,559,874 | 1,596,975 |

Financial overview

North Wales Wildlife Trust had a reasonable year, financially, with overall income rising from £1.65m to £1.83m. However, expenditure, particularly on charitable activities, also rose – from £1.59m to £1.96m – resulting in a relatively small reduction in funds overall, as per the budget. Cash reserves for the Trust remain reasonably healthy at £471k, despite dropping by over £310k from last year, but Trustees will be paying particular attention to cash flow in the year ahead.

Spending on charitable activities was split roughly 60%:40% between conservation and education; staff employed rose to 35; and operating costs again increased to almost £500k. Our subsidiary companies, Enfys Ecology and NWWT Trading, made encouraging and welcome contributions of £80.7k and £20k respectively; whilst income raised by our Branches remained at around £3k.

Looking forward, there is little doubt that challenging times are ahead – and there's no room for any complacency if the Trust is to remain financially stable and sustainable.

Ian Dunsire, Treasurer & Company Secretary / Trysorydd a Ysgrifennydd y Cwmni

Trosolwg ariannol

Cafodd Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru flwyddyn resymol yn ariannol, gyda'r incwm cyffredinol yn codi o £1.65m i £1.83m. Fodd bynnag, cynyddodd y gwariant hefyd, yn enwedig ar weithgareddau elusennol - o £1.59m i £1.96m – gan arwain at ostyngiad cymharol fychan yn y cyllid yn gyffredinol, yn unol â'r gyllideb. Mae cronfeydd ariannol yr Ymddiriedolaeth yn rhesymol iach o hyd, yn £471k, er eu bod wedi gostwng fwy na £310k ers y llynedd, ond bydd yr Ymddiriedolwyr yn rhoi sylw manwl i lif arian yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Rhannwyd y gwariant ar weithgareddau elusennol yn 60%:40% yn fras rhwng cadwraeth ac addysg; cynyddodd y staff sy'n cael eu cyflogi i 35; a chynyddodd y costau gweithredol eto i bron i £500k. Gwnaeth ein his-gwmniau, Enfys Ecology ac NWWT Trading, gyfraniadau calonogol, i'w croesawu, o £80.7k ac £20k; ac roedd yr incwm a godwyd gan ein Canghellau ni tua £3k eto.

Wrth edrych ymlaen, mae amseroedd heriol o'n blaen yn sicr – a does dim lle i ni orffwys ar ein rhwyfau os yw'r Ymddiriedolaeth i barhau i fod yn sefydlog ac yn gynaliadwy yn ariannol.

Honorary officers Swyddogion anrhydeddus

President / Llywydd

Robin Grove-White

Vice Presidents / Is Lywyddion

Pippa Bonner, Peter Hope Jones, Howard Davies, Dr Goronwy Wynne

Chairman / Cadeirydd

Roger Thomas

Vice Chairman / Is-Gadeirydd

Les Starling

Treasurer & Company Secretary

/ Trysorydd a Ysgrifennydd y Cwmni

Ian Dunsire

Trustees / Ymddiriedolwyr

Susan Allen, Gillian Coates, Howard Davies (retired), Ian Dunsire, John Good, Frankie Hobro, Simon Mills, Steve Palin, James Robertson, Les Starling, Roger Thomas, Lyndell Williams



Make wildlife part of your story:

- Become a member
- Volunteer your time
- Support our campaigns
- Remember us in your Will

Gnewch fywyd gwylt yn rhan o'ch stori:

- Dod yn aelod
- Gwirfoddoli eich amser
- Cefnogi ein hymgyrchoedd
- Cofio amdanom yn eich Ewyllys

Find out more / Darganfyddwch fwy:
northwaleswildlifetrust.org.uk

North Wales Wildlife Trust /
Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
Llys Garth, Garth Road/Ffordd Garth,
Bangor, Gwynedd LL57 2RT
01248 351541
info@northwaleswildlifetrust.org.uk
northwaleswildlifetrust.org.uk

Registered Charity No. / Rhif Cofrestru'r Elusen 230772



(Original layouts by / Gosodiadau gwreiddiol gan
Boults Studio)

